# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 10/03/2020 yn Siop Siarad am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Carys Roberts | Caren Jones |
| Guto Williams | Gwynfor Jones | Janice Evans | Rhys Tudur | Lleucu Jones |
| Alaw Llewelyn Roberts | Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau a Croesawu Aelod Newydd**
   Catrin Roberts, Sharon Williams a Cai Rees Jones.
   Croesawyd Rhys Llewelyn yr Aelod newydd i'r Cyngor gan y Cadeirydd.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio
   Guto Williams – Cae Chwarae Edern
   Mared Llywelyn Williams – Llyfrgell Nefyn

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Llawn 11/02/2020
   Penderfyniad: derbyn yn gywir
   Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Cof Golofn Edern**
   Cafwyd cais am ddiweddariad ar y gwaith atgyweirio yng Nghof Golofn Edern gan un o'r aelodau gan nad oedd yn y pwyllgor diwethaf ac fe eglurwyd y sefyllfa iddo.
   **Trechu Tlodi Mislif**
   Mewn ymdrech i geisio trechu toldi mislif gan y Llywodraeth mae Cyngor Gwynedd eisiau i'r cynnyrch fod ar gael yn Llyfrgelloedd Gwynedd. Gan fod Llyfrgell Nefyn o dan ofal y Cyngor Tref ceisiwyd eu caniatad i gael cyflenwad o'r cynnyrch yn y Llyfrgell i bwy bynnag fydd eu hangen.
   Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ond bod angen ffendio allan pwy sydd yn talu, os mai'r Cyngor Tref fydd yn gorfod talu maent yn hapus i wneud.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams
   **Cwyn – Carreg Fedd, Mynwent Nefyn**
   Mae cwyn wedi dod i law fod y torrwr beddi wedi 'chipio' carreg fedd wrth agor bedd drws nesaf ond un iddi.
   Penderfyniad: Arfon a'r Clerc i fynd i'r fynwent i weld y difrod.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones
   **Angor**
   Nid yw'r aelod lleol byth wedi cael hyd i angor i'w arddangos yn y gymuned er gwaethaf ei ymdrechion. Daeth cynnig gan un o'r aelodau i roi her i Aled Huws, Radio Cymru i gael hyd i angor i'r Cyngor Tref.
   Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Caren Jones
   **Pris gan Cliff Hughes**
   Derbyniwyd pris gan Cliff Hughes i drwsio'r lôn fynwent ac i ail osod stand Car Park Ddôl, Nefyn.
   Penderfyniad: derbyn y pris a cario mlaen gyda'r gwaith.
   Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Carys Roberts

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

5. **Awdit – Diweddariad –** Catrin Roberts
   Cafwyd diweddariad gan y clerc. Mae'r cadeirydd a'r clerc wedi cael cyfarfod gyda'r swyddog sydd yn delio hefo'r awdit er mwyn cael cadarnhad o beth sydd ei angen i gwblhau'r awdit ynghyd a chaslgu'r ffeiliau a'r dogfennau i gyd. Mae angen mynd drwy'r ffigyrau i gyd a'r ffeiliau i gyd i wneud yn saff fod bob dim yna a'u bod yn gywir. Mae hyn yn golygu dipyn mwy o waith i'r clerc ar ben ei gwaith o ddydd i ddydd.
   Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i dalu'r clerc am y gwaith ychwanegol yma ar ben ei chyflog misol.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gwynfor Jones

6. **Aelodaeth Is-Bwyllgorau**
   Yn dilyn cais am eglurdeb ym mhwyllgor Chwefror fe lenwyd y seddi i gyda ar yr is-bwyllgorau a cafwyd eglurdeb ynglyn a cais i greu is-bwyllgor Hanesyddol sef codi ymwybyddiaeth o'r adeiladau hanesyddol sydd yn Nefyn.
   Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i greu Is-bwyllgor Hanesyddol a'r clerc i ail deipio rhestr is-bwyllgorau a'u anfon i bob aelod.
   Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Rhys Tudur

7. **Diwrnod V E 8/5/20 & Gosod Meinciau –** Arfon Hughes & Carys Roberts
   'Rydym yn dal i aros am bris gan y Gôf ar gyfer y meinciau.
   Penderfyniad: agenda mis nesaf a rhoi un cyfle arall i'r Gôf gyflwyno pris.

8. **Cofrestru Diffibriliwr**
   Cafwyd e-bost gan Un Llais cymru yn datgan bod angen cyfrestru pob diffibriliwr ar y gylched newydd 'The Circuit'.
   Penderfyniad: y clerc i fynd i hel y wybodaeth ar gyfer pob diffibriliwr a'u cofrestru ar y system newydd.
   Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Rhys Tudur

9. **Diffyg lle yn maes parcio Y Fron, Nefyn –** Catrin Roberts
   Gan fod Catrin Roberts ddim yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod penderfynwyd rhoi'r mater yma ar agenda mis nesaf.

10. **Llwybrau – Diweddariad -** Gruffydd Williams
    **Difrod I lwybr o Benbryn Glas I Tai Ffolt – angen ei drwsio ar frys.**
    Penderfyniad: yr aelod lleol i gael pris a bod yr Is-bwyllgor Ariannol yn cael yr hawl i dderbyn y pris cyn y pwyllgor llawn nesaf er mwyn i'r gwaith gael cario mlaen ar frys.
    Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Mared Llywelyn Williams
    **Llwybr Penrallt (Waldies)**
    Dal i ddisgwyl am ymateb.
    **Llwybr heibio Ty Bwgan, Cerrig Gleision**
    Mae perchnogion Cerrig Gleision wedi creu llwybr sydd yn mynd yn syth lawr i'r traeth o'r eiddo yma heb ganiatad, mae'n serth ofnadwy ac yn berygl iawn. Mae'r aelod lleol wedi tynnu sylw Cyngor Gwynedd ato ac yn disgwyl ymateb.


Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

11. **Traethau – Diweddariad –** Gruffydd Williams
    Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn bwriadu drafftio memorandwm a'i rannu gyda'r partion perthnasol yn cynnwys y Cyngor Tref, ble bydd cyfle iddynt edrych arno a mynegi barn, er mwyn cael cytundeb hir dymor ar gyfer y traethau. Mae cytundeb yr un fath a'r llynedd wedi ei wneud ar gyfer eleni gyda'r Cyngor Tref yn cyfranu £5,000.00 tuag at gostau reolaeth ar y traethau.

12. **Meinciau I gardd y Llyfrgell –** Gruffydd Williams
    Nid oes pris wedi ei dderbyn hyd yn hyn.

13. **Cais am arian i'r Gronfa Natur –** Gruffydd Williams
    Adfer pyllau Bryn Mynach a'r Ddol ac i gael safle dehongli
    Gazebo yn Ysgol Nefyn ac yn y Ganolfan Treftadaeth
    Penderfyniad: yr aelod lleol i roi cais i fewn.
    Cynnig: Mared Llywelyn Williams     Eilio: Rhys Tudur

14. **Cae Chwarae Bryn Mynach**
    Snakes and ladders, hop scotch a gwelliannau I'r trac beics
    Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol gan Bwyllgor Cae Chwarae Bryn Mynach i fynd ymlaen a'r gwaith.
    Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts  Eilio: Arfon Hughes

15. **Ceisiadau Cynllunio**
    **C20/0173/42/DT –** Cae'r Wylan, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6BW – Addasiadau a newidiadau gan gynnwys codi estyniad deulawr cefn a phorth blaen
    **Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad
    Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Carys Roberts

    **Ceisiadau Diweddarach**
    Dim.

16. **Cais am Gyfraniad Ariannol**

    - Eglwys Dewi Sant Nefyn
    - Cylch Meithrin Edern
    - Cronfa Nefyn, Eisteddfod 2021 – 3 blynedd o gyfraniad
    - Cae Chwarae Edern
    - Grwp Mynediad Dwyfor

    Penderfyniad:

    - Eglwys Dewi Sant – Agenda mis nesaf
    - Cylch Meithrin Edern – pasiwyd yn unfrydol i roi cyfraniad o £250.00 gan ofyn iddynt adael i'r Cyngor Tref wybod beth y maent yn gwario'r arian arno.
      Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Rhys Tudur
    - Cronfa Nefyn Eisteddfod 2021 – pasiwyd yn unfrydol i roi cyfraniad o £5000.00 i'w dalu allan o'r reserves.
      Cynnig: Gruffydd Williams     Eilio: Rhys Tudur

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

- Cae Chwarae Edern – y clerc i yrru e-bost yn gofyn beth yw defnydd y tir mewn cwestiwn.
- Grwp Mynediad Dwyfor – pasiwyd yn unfrydol i roi cyfraniad o £200.00.
  Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Caren Jones

**17. Gohebiaeth a dderbyniwyd:**

- Un Llais Cymru Pwyllgor Cynghorau Lleol Mwy Cofnodion cyfarfod 5/2/20
- Teenage Cancer Trust Cymru
- Clybiau Ieuenctid
- Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Penderfyniad: y clerc i ateb e-bost Clybiau Ieuenctid yn datgan fod gan y Cyngor Tref ddiddordeb mewn mynychu'r cyfarfod.

**18. Taliadau i'w gwneud**

Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:

- Cyflog y Cerc - £709.47
- Bob Thomas – Tynnu bob dim oddi ar y laptop, prynnu a gosod Microsoft Office 2016 - £170.00
- John Gwynfor – Agor Bedd Llwch Maurice Raymond Cotgrove - £70.00
- John Gwynfor – Agor Bedd Llwch Hugh Griffith Parry - £70.00
- John Gwynfor – Agor Bedd Llwch I ddau Ifor Morris Davies & Mair Wynne Davies - £75.00
- Rent Siop Siarad – Nefyn Foods Ltd - £780.00
- Ashley Hughes - £42.78
- Dwr Cymru – Llyfrgell Nefyn - £505.83
- Cliff Hughes – Taliad 10 – Llwybrau Y Ddol a Bryn Mynach - £825.00 a gwaith ychwanegol £79.00 = £904.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Carys Jones

Anfonebau sydd wedi eu talu:

- Cyfraniad Ambiwlans Awyr Cymru - £500
- PAYE Mis 10 - £133.75


Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298